BBC SCREENPLAY FORMAT

by

(Name of First Writer)

(Based on, If Any)

There should be one
contact address only
in the bottom left
hand corner.
Always include a phone
number and an e-mail
address if you have one.

MEWN. TY'R GUKRHA'S. GEGIN/LOLFA. DYDD

CARYS/CHARLIE/BILI/FRANKIE/DAN/NIKKI/KIM/ALAW

BILI a FRANKIE yn bwyta eu crempoga, ac mae ALAW yn golchi llestri.

FRANKIE
Ond pryd fydd mam yn ffonio?

CARYS
Bora ma rwbryd. (I ALAW) Gad heinna, na'i nhw wedyn.

ALAW yn rhoi gwen iddi, ond yn parhau i olchi'r llesti.

ALAW
Yfa dy ddishgled.

BILI
Dwi'n rili methu hi.

FRANKIE
A Dione...Dwi'm isio hi farw.

BILI yn rhoi ei braich o gwmpas ysgwyddau ei chwaer fawr.

BILI
Neith hi ddim siwr. Jysd pobol hen sy'n marw.

BILI yn troi at CHARLIE.

BILI (CONT'D)
No offense Charlie.

CHARLIE yn tynnu gwyneb, a CARYS methu peidio gwenu.

KIM yn dod i lawr.

KIM
Bore da.

BILI yn sbio arni yn synn.

BILI
Ti'n byw yma hefyd?

BILI yn troi at CARYS.

BILI (CONT'D)
Ti'n nain i pawb?

CARYS yn chwerthin, cyn troi at KIM efo gwen.

CARYS
Dwi fwy fel nain yng nghyfraith i Kim...

ALAW a KIM yn edrych ar ei gilydd, mewn sioc bod CARYS yn gwbod.

ALAW
(mewn sioc)
Ti'n gwbod?

CARYS
Ydw siwr. Dwi ddim mor thic a dwi'n edrach.

CHARLIE
Mi ydw i. O'dd gin i'm syniad.

FRANKIE
Gawn ni fynd i siop i brynu wbath i Dione?

CHARLIE
Fel be?

FRANKIE
Dwmbo, jysd wbath bach i ddeud brysia wella.

CARYS
Cewch siwr. Ewch chi fyny i newid, a eith yncl Charlie a chi.

CHARLIE
Gobeithio na'i ddim marw ar y ffordd de.

BILI
Paid a poeni, na'i ddal llaw chdi.

BILI a FRANKE yn diflannu fyny grisia.